# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 21 Chwefror 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cost flynyddol cynnal a diweddaru offer TG mewn swyddfeydd Llygad Busnes ledled Cymru ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad manwl? (WAQ51306)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Y gost amcangyfrifedig o gynnal a chadw a diweddaru cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn adeiladau Llygad Busnes ledled Cymru yn 2007-8 fydd £332k. Rhennir y gost amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar a chymorth TG mewn canolfannau lleol (yn cynnwys cymorth). Cost gyfartalog flynyddol dros gontract tair blynedd | £203,492 |
| Ymgynghoriaeth gwefan, cymorth a gwaith cynnal a chadw Llygad Busnes | £98,149 |
| Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymorth Busnes Llygad Busnes | £23,161 |
| Gwasanaethau Desg Gymorth TG i staff Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweithio yn Llygad Busnes (swm tybiannol) | £7,000 |
| **Cyfanswm** | **£331,802** |

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cost ragamcanol Llygad Busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru dros y tair blynedd nesaf. (WAQ51307)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cost amcangyfrifedig Llygad Busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008/9 yw £5.3m. Mae hyn yn cynnwys costau gwasanaethau canolog a staffio a gyflwynir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gwasanaethau wedi'u contractio (er enghraifft darpariaeth canolfan leol) a gyflwynir gan sefydliadau partner (llywodraeth leol yn bennaf).

Bydd y costau y tu hwnt i 2008/9 yn dibynnu ar gasgliadau ac argymhellion adolygiad presennol Llygad Busnes a'r strategaeth a fydd yn deillio o hyn.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog a'i adran wedi'i wneud o effeithiolrwydd Llygad Busnes? (WAQ51308)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ers ei sefydlu yn 2003, mae Llygad Busnes wedi canolbwyntio ar foddhad cwsmeriaid fel ei prif ysgogwr a mesur perfformiad allweddol.

Ers i'r rhaglen ddechrau tan ddechrau 2007, gwahoddwyd pob ymholydd i gwblhau holiadur boddhad cwsmeriaid eu hunain.

Mae'r broses hon bellach wedi'i disodli gan arolwg cwsmeriaid dros y ffôn o sampl o gleientiaid, a fydd yn cael ei gynnal gan ymchwilwyr annibynnol.

Dangosodd canfyddiadau'r arolwg ym mis Hydref 2007 fod nifer gynyddol o'r un cleientiaid yn cysylltu â Llygad Busnes a bod lefel boddhad y gwasanaeth yn uchel yn gyffredinol (roedd 68% o'r rhai y cyfwelwyd â hwy yn fodlon iawn ac roedd 18% ohonynt yn eithaf bodlon).

Ar ddiwedd 2007, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad annibynnol o Llygad Busnes. Mae'r gwaith ar hwn yn mynd rhagddo ac yn ystod cyfnod yr Adolygiad, mae ymgynghorwyr yn cysylltu â busnesau, staff lleol, contractwyr ac amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau mantell busnes megis Ffederasiwn Busnesau Bach).

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** O'r rheini sydd wedi ceisio cyngor gan Llygad Busnes ar gyfer cynlluniau dechrau busnes, sawl un a) sydd â Busnes sefydledig cyfredol sy'n rhagamcanu elw, b) sydd heb lwyddo i ffurfio busnes, c) sydd wedi llwyddo i ffurfio busnes ond yna wedi methu? (WAQ51309)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae Llygad Busnes yn wasanaeth gwybodaeth a chyfeirio ac mae wedi ymateb i 75,170 o ymholiadau rhwng mis Ebrill 2004 a diwedd mis Ionawr 2008.

Rhoddir gwybodaeth i gleientiaid Llygad Busnes sydd am ddechrau busnesau newydd i'w helpu i wneud hynny, a chânt fel arfer eu cyfeirio at sefydliadau eraill i gael cyngor pellach, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ni chedwir gwybodaeth yn ganolog am yr hyn sy'n digwydd i gleientiaid Llygad Busnes unwaith y cânt eu cyfeirio at ddarparwyr eraill, ond mae prif raglen dechrau busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu 12,084 o fusnesau ledled Cymru o 1 Ebrill 2004 hyd yma.

Yn ogystal â hyn, mae cydberthyniad pwysig iawn rhwng pobl sydd am ddechrau mewn busnes a gafodd gymorth (cyhoeddus/preifat) cyn ei sefydlu a'r busnesau sydd wedi goroesi ar ôl dwy flynedd.

Mae 85% o fusnesau sy'n dechrau ac sy'n cael cymorth gan brif raglen dechrau busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru (ac un y sefydliad a'i rhagflaenodd) yn goroesi ar ôl blwyddyn, a 70% ar ôl dwy flynedd. Yn gyffredinol mae hyn yn 15% yn fwy na'r gyfradd oroesi ar gyfer busnesau sy'n dechrau na chawsant unrhyw gymorth.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):**Faint o bobl sydd wedi ceisio cyngor gan Llygad Busnes yn y flwyddyn ddiwethaf yr oedd ffigurau ar gael, a beth fu'r ffigur blynyddol ers sefydlu Llygad Busnes? (WAQ51310)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cysylltodd 24,628 o gleientiaid â Llygad Busnes yn 2006-7, y flwyddyn lawn ddiwethaf lle'r oedd ffigurau ar gael. Y ffigurau o'r blynyddoedd blaenorol yw 16,012 (2005-6) ac 11,055 (2004-5).

Yn 2007-8 hyd yma, mae Llygad Busnes wedi cael 23,475 o ymholiadau newydd.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw cost hysbysebu gwasanaethau Llygad Busnes ac a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad blynyddol o'r a) costau hysbysebu ar y teledu, b) costau hysbysebu mewn papurau newydd, ac c) cost pob math arall o hysbysebu a ddefnyddiwyd? (WAQ51311)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Y gwariant a ragwelir ar hysbysebu Llygad Busnes yn 2007/8 yw £728,692.

Gellir rhannu hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Hysbysebion teledu | £80,000 |
| Hysbysebion papur newydd | £196,175 |
| Hysbysebion awyr agored | £91,680 |
| Hysbysebion radio | £241,283 |
| Hysbysebion eraill (cylchgronau, cyfeirlyfrau ac ati) | £19,554 |
| Dylunio a chynllunio hysbysebion | £100,000 |
| **Cyfanswm** | **£728,692.00** |

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth fu cost sefydlu Llygad Busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ51312)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth fu cyfanswm y gost i Lywodraeth Cynulliad Cymru o gyllido Llygad Busnes yn y flwyddyn ddiwethaf yr oedd ffigurau ar gael, ac a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad blynyddol o'r ffigur hwn ers sefydlu Llygad Busnes? (WAQ51313)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cyfanswm cost Llygad Busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru ers ei sefydlu ym mis Medi 2003 yw £29,268,646. Mae hyn yn cynnwys costau darparu gwefan genedlaethol a chanolfan gyswllt, 28 canolfan leol, a thîm cymorth canolog/rhanbarthol.

Mae'r ffigurau bob blwyddyn fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | |
|---|---|
| 03/04 | £4,521,116 |
| 04/05 | £5,386,113 |
| 05/06 | £5,994,695 |
| 06/07 | £6,922,793 |
| 07/08 (amcangyfrif) | £6,443,929 |
| **CYFANSWM** | **£29,268,646** |

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Faint o bobl a gyflogir, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan Llygad Busnes ledled Cymru ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad blynyddol o'r bil cyflogau? (WAQ51314)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn 2006/7 cyflogodd Llygad Busnes 108 o bobl ledled Cymru a chânt eu rhannu fel a ganlyn:

| **Swyddogaeth** | **Nifer y staff** | **Cost Cyflog** |
|---|---|---|
| Tîm Llywodraeth y Cynulliad (yn cynnwys canolfan gyswllt/tîm gwefan, tîm rheoli canolog/rhanbarthol) | 27 | £895,446 |
| Canolfannau lleol (staff contractwr, a gyflogir gan awdurdodau lleol yn bennaf) | 80 | £2,393,372 |
| **Cyfanswm** | **107** | **£3,288,818** |

**Mike German (De Ddwyrain Cymru):** Yn dilyn datganiad y Gweinidog ar y pryd am ffordd osgoi Cas-gwent yn 2003, (a) a oes unrhyw gynlluniau ar y gweill cyn tynnu statws cefnffordd yr A48 / A466 drwy Gas-gwent a (b) os nad oes, a all y Gweinidog ddarparu'r manylion diweddaraf i ni am y cynnig i dynnu'r statws cefnffordd? (WAQ51322)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau ar gyfer ffordd osgoi Cas-gwent yn enwedig ers i'r Asiantaeth Priffyrdd dynnu statws yr A48 ar draws y ffin yn ddiweddar a'i throsglwyddo'n ôl o dan reolaeth yr awdurdod lleol, gan ei dileu o'r rhwydwaith priffyrdd strategol.

Mae ein barn yn debyg i farn yr Asiantaeth Priffyrdd ar bwysigrwydd strategol yr A48 / A466 yng Nghas-gwent. Ein polisi yw tynnu statws y ffyrdd gan eu dileu o'r rhwydwaith priffyrdd strategol yng Nghymru a galluogi Cyngor Sir Fynwy i reoli'r ffyrdd fel y gwelant orau. Os bydd hyn yn mynd rhagddo bydd yn rhaid i Gyngor Sir Fynwy gytuno ar y newid statws a'r ffaith mai'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd cyfrifol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i dreialu dulliau newydd o ddarparu cefnogaeth iechyd meddwl mewn ysgolion, yn debyg i'r prosiect Targedu Iechyd Meddwl mewn Ysgolion sy'n cael ei gyflwyno gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr? (WAQ51319)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Dull allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru o wella iechyd meddwl o fewn y system ysgol yw datblygu gwasanaeth cwnsela cenedlaethol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft rhwng mis Chwefror a mis Mai 2007 a bydd yr ymatebion i hwn yn ogystal â'r dadansoddiad a gomisiynwyd yn arbennig ar y ddarpariaeth bresennol yn llywio'r strategaeth derfynol, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Ebrill eleni.

Mae'r arian ar gyfer y cyfnod 2008-09 i 2010-11 o £1m, £2.5m, £3m wedi'i neilltuo er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n trafod gydag awdurdodau lleol y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r arian yn eu hardaloedd. Yn y tymor byr darparwyd £200,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol yn 2006-07 a 2007-08 er mwyn darparu sesiynau cwnsela ychwanegol drwy ddarparwyr presennol.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu canllaw i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ar iechyd emosiynol a lles disgyblion, yn cynnwys rhai mewn lleoliadau meithrin. Bydd y canllaw yn ymdrin ag agweddau megis dulliau'r ysgol gyfan o hyrwyddo iechyd meddwl emosiynol cadarnhaol, nodi arwyddion cynnar problemau iechyd meddwl a gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o broblemau iechyd meddwl a disgrifio'r systemau atgyfeirio angenrheidiol. Bwriedir i'r canllaw gael ei roi ar y rhyngrwyd er mwyn cael sylwadau a gwneud gwelliannau iddo ar ddechrau 2008.

Mae Cynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru hefyd yn rhan allweddol o ddull Llywodraeth Cynulliad Cymru o wella iechyd meddwl drwy ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru drwy ddarparu arian a chanllawiau i helpu gwasanaethau iechyd ac addysg sy'n gweithio mewn partneriaethau i sefydlu cynlluniau ysgolion iach lleol a'u cynnal ym mhob ardal yng Nghymru. Hyrwyddo iechyd meddwl ac iechyd emosiynol yw un o brif agweddau'r cynllun. Mae'r cynlluniau lleol hyn yn helpu ysgolion yn eu hardaloedd i wneud newidiadau er mwyn sicrhau iechyd da.

Darparwyd cyllid ychwanegol i wasanaethau iechyd ac addysg er mwyn helpu i gyrraedd y targed o gael 75 y cant o ysgolion a gynhelir yn rhan o'r Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru erbyn mis Mawrth 2008 a phob ysgol erbyn mis Mawrth 2010.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Pa ddarpariaethau sydd mewn grym ar hyn o bryd i gynorthwyo pobl sydd wedi rhoi'r gorau i'w gwaith i ofalu am rywun ac sydd am fynd yn ôl i weithio? (WAQ51320)

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A oes unrhyw gynigion i newid y ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo pobl sydd wedi rhoi'r gorau i'w gwaith i ofalu am rywun ac sydd am fynd yn ôl i weithio? (WAQ51321)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid yw materion sy'n ymwneud â chyflogaeth wedi'u datganoli.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer gwasanaethau canser y prostad? (WAQ51324)

**Edwina Hart:** Mae’r arian ar gyfer gwasanaethau canser yn llunio rhan o ddyraniadau ariannu Comisiwn Iechyd Cymru a Byrddau Iechyd Lleol. Cyfrifoldeb y sefydliadau hyn yw pennu sut y dylid gwario’r arian hwn yn lleol ar gyfer triniaeth cleifion canser, a fydd yn cynnwys triniaeth ar gyfer canser y prostad.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pryd mae’r Gweinidog yn disgwyl y bydd cynllun meddygfa Stryd Fawr y Bari i symud i Lannau’r Bari yn cael ei gwblhau? (WAQ51345)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael copi o’r cynnig ar gyfer y cynllun hwn ac o’r herwydd ni allaf roi sylwadau ar hyn.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith Deddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 yng Nghymru? (WAQ51328)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Bydd Deddf Ardrethu (Adeiladau Gwag) 2007 yn lleihau’r rhyddhad ardrethu anomestig ar gyfer adeiladau gwag o’r rhyddhad presennol o 50% i ddim y cant o’r rhyddhad safonol o fis Ebrill 2008 ymlaen. Cymhwysodd y newidiadau i Gymru a Lloegr, ond rhoddodd bwerau Lywodraeth y Cynulliad i lunio rheoliadau i newid y rhyddhad ardrethu adeiladau gwag yn ôl i 50% neu i unrhyw swm rhwng dim y cant a 50%. Mae’r Ddeddf hefyd yn eithrio adeiladau gwag a ddefnyddir gan elusennau a chlybiau chwaraeon rhag talu ardrethi.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A yw’r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i leihau baich treth Deddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 ar fusnesau yng Nghymru. (WAQ51329)

**Brian Gibbons:** Mae Deddf Ardrethu (Adeiladau Gwag) 2007 yn lleihau swm y rhyddhad ardrethu sydd ar gael i berchnogion adeiladau sy’n wag - nid yw’n cyflwyno treth fusnes. Cododd Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo heb ei Feddiannu) (Diwygio) (Cymru) 2007 werth ardrethol adeiladau gwag a gaiff eu heithrio rhag ardrethi annomestig o £1,500 i £2,200.